

**CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL**

**CAMAU A GYMERWYD GAN Y CADEIRYDD YR IS-GADEIRYDD A'R CLERC YN YSTOD CYFNOD GOHIRIO CYFARFODYDD OHERWYDD Y CORONAFEIRWS / ACTIONS TAKEN BY THE CHAIRMAN, VICE-CHAIRMAN AND CLERK DURING THE PERIOD OF SUSPENDING MEETINGS DUE TO THE CORONAVIRUS**

<b>DYDDIAD / DATE</b>	<b>GWEITHRED</b>	<b>ACTION</b>
<b>23/3/2020</b>	<b>Penderfyniad gan y Cadeirydd a'r is-gadeirydd i ohirio cyfarfodydd. Llythyr at y Cynghorwyr yn gohirio cyfarfodydd; Erthygl a hysbys am y gohiriad i'r Glorian, hysbys am y gohiriad ar wefan y Cyngor ac ar y Gweplyfr a'r Hysbysfwrdd..</b>	<b>Decision by Chairman and Vice-chairman to suspend meetings. Letter to Councillors re suspension of meetings; article and notice regarding suspension to Glorian; notice re suspension on the Council website and on Facebook and on the Noticeboard.</b>
<b>24/3/2020</b>	<b>Gofyn i Brian Veevers gau'r maes Chwarae Plant. Llenwi arolwg mwnci yn ymwneud a'r firws i Unllais Cymru.</b>	<b>Requested Brian Veevers to close the children's playground. Completed monkey survey re virus for One Voice Wales.</b>
<b>25/3/2020</b>	<b>Rhoi Hysbys am gau'r maes chwarae plant ar wefan y Cyngor. Ateb cais oddi wrth CSYM am lefydd claddu ar gael. Wedi dweud nad y Cyngor oedd yn gyfrifol am y mynwentydd ac wedi rhoi enwau cyswllt ar gyfer y ddwy fynwent i CSYM.</b>	<b>Notice re closure of children;s playground uploaded onto the Council website. Replied to a request from IACC re burying spaces available. Told the Council that the Comm. Council was not responsible for the cemeteries and gave them names to contact for both cemeteries.</b>
<b>26/3/2020</b>	<b>Anfon copi o Ddiweddariad Llywodraethiant (25/3/2020) a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru at y Cadeirydd a'r is-gadeirydd. Wedi e-bostio copi o fathynod a ddarparwyd gan Medrwn Môn ar gyfer gwirfoddolwyr at Stephanie Roberts.</b>	<b>Copy of Governance Update (25/3/2020) received from One Voice Wales to the Chairman and vice-chairman. Emailed copy of badges produced by Medrwn Mon for use of volunteers to Stephanie Roberts.</b>
<b>02/04/2020</b>	<b>Cais cynllunio llawn ar gyfer addasu ac ehangu, ymestyn y cwrttil ynghyd a gosod system trin carthffosiaeth yn Parc. Wedi cysylltu â'r Cadeirydd a'r is-gadeirydd - penderfynu " dim sylwadau".</b>	<b>Full planning application for alterations and extensions, extension to curtilage together with the installation of a treatment plant at Parc. Contacted chairman and vice chairman – decision "no observations".</b>

02/04/2020	Wedi derbyn pris cynnal a chadw'r cloc gan Smith of Derby. £246.00 + VAT am flwyddyn, £664.00 + VAT am 3 blynedd. Cadeirydd a'r is gadeirydd yn penderfynu ar gontract 3 blynedd. Tâl o £796.80 wedi ei anfon ar 24/04/2020.	Quote for servicing the clock received from Smith of Derby. £246.00 + VAT for 1 year, £664.00 + VAT for 3 years. Chairman and Vice Chairman decided on a 3 year contract. Payment of £796.80 sent on 24/4/2020.
02/04/2020	Wedi derbyn hysbysiad archwilio i'r flwyddyn ariannol sy'n diwedd 31/03/2020 oddi wrth BDO. Hefyd Llythyr oddi wrth Swyddfa Archwilio Cymru ynglŷn â'r archwiliad a COVID 19. Dim rhaid poeni am gynhyrchu cyfrifon i'w harchwilio erbyn 30/6/2020.	Received Notice of Audit for the financial year ending 31/03/2020 from BDO. Also letter from Wales Audit Office regarding audit and COVID 19. No need to worry about producing accounts for audit by 30/6/2020.
21/04/2020	Wedi llenwi ac anfon y ffurflen ofynnol ar gyfer Cydnabyddiaeth Ariannol Cynghorwyr 2019/2020 at Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol ac wedi derbyn cadarnhad o'i dderbyn gan y Panel.	Completed and forwarded the required form regarding Remuneration to Councillors 2019/2020 to the Independent Remuneration Panel and have received confirmation of receipt from the Panel.
24/04/2020	Derbyn praecept cyntaf £2833.34	First praecept received £2833.34.
29/04/2020	Wedi danfon dogfennau ar gyfer archwilio mewnol i'r archwilydd mewnol.	Financial documents taken to internal auditor for internal audit.
02/05/2020	Wedi nôl y dogfennau oddi wrth yr archwilydd mewnol. Archwiliad glân. Ffi o £100 i'w dalu.	Fetches the documents from the internal auditor. Clean audit. Fee of £100 payable.
04/05/2020	Caniatâd i dalu ffi'r Archwilio Mewnol.	Permission to pay the fee for Internal Audit.
02/05/2020	Llythyr oddi wrth Zurich i adnewyddu Polisi Yswiriant y Cyngor am bris o £520.20 gyda chynnig i adnewyddu am 3 blynedd am bris o £498.45 y flwyddyn, ac i adnewyddu am 5 mlynedd £475.65. Wedi anfon y neges ymlaen at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i gael eu mewnbwn.	Letter from Zurich to renew the Council's Insurance Policy at a cost of £520.28 with an offer to renew for 3 years at a cost of £498.45 per year and £475.65 to renew for 5 years. Message forwarded to Chairman and Vice Chairman for their observations.
04/05/2020	Wedi anfon e-bost at BDO yn eu cyngori na fyddai ffurflen flynyddol yr archwiliad yn cael ei anfon erbyn 30/06/2020 ac	Sent an email to BDO informing them that the Audit Annual Statement could not be sent to them by 30/06/2020 and requesting their advice regarding the

	yn gofyn am gyngor ynglŷn â geirfa'r rhybudd ynglŷn â hynny i'w arddangos ar yr hysbysfwrdd a'r wefan. Yr un gofyniad ynglŷn a'r eirfa wedi ei anfon at Archwilydd Cymru.	notice to be displayed on the notice board and on the website. The same request regarding the wording sent to the Auditor for Wales.
07/05/2020	Penderfynu i adnewyddu'r Yswiriant am flwyddyn yn unig. Y gostyngiad ddim yn ddigon. Caniatad i dalu.	Decided to renew for a period of 1 year only. Reduction offered not sufficient. Permission to pay.
07/05/2020	Anfoneb oddi wrth y Cyfrifydd am £120.00 - gwaith PAYE ar ran y Cyngor. Derbyn caniatâd i'w dalu.	Invoice from the Accountant for £120.00 – PAYE work on behalf of the Council. Permission to pay given.
11/05/2020	Cwyn ynglŷn ag Arfon House oddi. Yn dilyn trafod gyda'r Cadeirydd a'r Is gadeirydd, E-bost wedi anfon at Ned Michael, Cyngor Sir ar 19/05/2020.	Complaint regarding Arfon House received. Following discussion with Chairman and Vice chairman, email sent to Ned Michael at the County Council on 19/05/2020.
14/05/202	Derbyn canllawiau newydd ynghyd a'r eirfa angenrheidiol ar gyfer archwilio allanol oddi wrth Archwilydd Cymru.	Received new guidelines together with the appropriate wording for external audit from Audit Wales.
15/15/2020	Cais am gyfraniad oddi wrth Tenovus a Tarian Cymru. Penderfynu eu rhoi ar agenda'r cyfarfod nesaf.	Applic. For donation from Tenovus and Tarian Cymru. Decided to place on the agenda for the next meeting.
18/05/2020	E-bost oddi wrth Sharon Jones ynglŷn a gordyfiant a Japanese Knotweed ar lwybr Ffynnon Bragdy. Wedi anfon ymlaen at Bob Parry i ddod a'r mater i sylw'r Cyngor Sir.	Email from Sharon Jones regarding overgrowth and Japanese Knotweed on the public footpath leading to Bragdy Well. Forwarded to Bob Parry to bring the matter to the attention of the County Council.
19/05/2020	Hawlio ad-daliad VAT am y flwyddyn 2019/2020 = £671.89.	Claim for refund of VAT 2019/2020 = £671.89.
20/05/2020	Ateb oddi wrth Ned Michael ynglŷn ag Arfon House.	Reply from Ned Michael regarding Arfon House.
21/05/2020	Rhybudd Penderfyniad ar gais cynllunio rhif 48C207C. Caniatad i gais amlinellol ar gyfer codi 5 annedd pris marchnad a 2 annedd fforddiadwy ynghyd a manylion llawn am fynediad a thirluniad ar dir ger Frondeg.	Notice of Decision on planning application number 48C207C. Permission granted for the erection of 5 market dwellings and 2 affordable dwellings together with full details of access and layout on land adjacent to Frondeg.
05/06/2020	Derbyn cwyn oddi wrth yr Is Gadeirydd am ordyfiant y gwrychyn ger Lôn Felin. Wedi rhoi'r neges i'r Cyngorydd Bob Parry, yntau'n cadarnhau y	Complaint from the Vice Chairman regarding overgrown hedge at Lon Felin. Spoke to Councillor Bob Parry about the complaint and he confirmed that he would pass the message on to the County

	byddai'n mynd a'r neges ymlaen i'r Cyngor Sir ac yn trefnu i'r gwrychyn gael ei dorri cyn gynted â phosibl.	Council and that he would arrange for the hedge to be cut as soon as possible.
05/06/2020	Cyflog y Clerc a'r PAYE yn daladwy ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol hon. Wedi gofyn am ganiatâd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i dalu'r ddau.	Clerk's salary and PAYE due for payment for the first quarter of this financial year. Requested permission from the Chairman and Vice Chairman to pay both.
05/06/2020	Yn unol â'r Rheoliad , hysbysiad archwilio wedi'i anfon ar gyfer ei roi ar wefan y Cyngor.	As per Regulation, notice re Audit sent to be uploaded onto the Council website.
06/06/2020	Caniatad wedi'i dderbyn i dalu cyflog y Clerc a'r PAYE.	Permission to pay the Clerk's salary and PAYE received.
11/06/2020	E-bost oddi wrth Sharon Jones - wedi derbyn cais i'r Cyngor Cymuned wneud cais am grant dan gronfa Grantiau Bach er mwyn iddi wneud pecynnau bwyd i'r henoed. Wedi anfon copi o'r e-bost at y Cadeirydd. Wedi anfon e-bost at Derlwyn Hughes, Medrwn Môn, yn gofyn am ei gyngor ynglyn a allai'r Cyngor wneud y cais ar ran unigolyn, a hefyd a fyddai gofyn i aelod o'r Cyngor fod yn gyfrifol am reoli'r arian/cynllun.	Email received from Sharon Jones – she had received a request for the Community Council to make an application to Medrwn Mon under the Small Grants Fund in order that she could prepare food packages for the elderly. Copy of the email sent to the Chairman. Sent an email to Derlwyn Hughes, Medrwn Mon, asking for advice on whether the Council could make an application on behalf of an individual,, and also whether there would be a necessity for a member of the Council to manage the money/scheme.
11/06/2020	Cais i roi dŵr yn Cae Dafarn Groes. Y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn penderfynu y dylid gadael y mater nes bydd y Cyngor llawn yn cyfarfod. Wedi anfon e-bost at y Ceisydd yn ei gynghori o'r penderfyniad.	Application to have water connected in Cae Dafarn Groes. The Chairman and Vice chairman decided to leave the matter until the full Council sits. Email sent to the Applicant advising him of the decision.
12/06/2020	Dim ymateb oddi wrth Derlwyn Hughes. Wedi ffonio swyddfa Medrwn Môn i geisio siarad â Mr Hughes, ond gan ei fod yn gweithio o adref, dywedodd y swyddog a atebodd y ffon y byddai'n cysylltu â Mr Hughes i ofyn iddo ymateb i'm e-bost.	No response from Derlwyn Hughes. I phoned Medrwn Mon's Offices to speak to Mr Hughes, but as he was working from home the officer who spoke to me said that she could contact Mr Hughes and ask him to respond to my email.
15/06/2020	Dim ymateb oddi wrth Mr Hughes. Gofynnais i'r Is-gadeirydd gysylltu â Mrs Stephanie Roberts i'w chynghori o'r sefyllfa.	No response from Mr Hughes. I asked Vice chairman to contact Stephanie Roberts to inform her of the situation.

16/06/2020	Wedi derbyn Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ynys Mon. Wedi rhoi copi i'r Cadeirydd a'r Isgadeirydd ac wedi rhoi'i hysbysiad ar wefan y Cyngor ac ar yr Hysbysfwrdd.	Received Review of Electoral Arrangements for the County of Isle of Anglesey. Copy given to the Chairman and Vice Chairman and copy of the notice sent for uploading onto the Council's website and put on the Noticeboard.
19/06/2020	Byth dim ateb oddi wrth Derlwyn Hughes ynglyn a'r grantiau bach. Wedi siarad â Linda yn swyddfa Medrwn Mon ac wedi anfon yr e-bost i Derlwyn Hughes ati hi.	Still no reply from Derlwyn Hughes regarding the small grants. Have spoken to Linda at Medrwn Mon's office and have sent her a copy of the email sent to Derlwyn Hughes.
23/06/2020	Ymateb oddi wrth Derlwyn Hughes – ni all Cyngor Cymuned na Chyngor Tref wneud cais am grant bach. Wedi anfon yr ymateb ymlaen at y Cadeirydd a'r Isgadeirydd i dderbyn eu sylwadau.	Reply from Derlwyn Hughes – Community Councils and Town Councils are not eligible to apply for the small grants. Reply forwarded to Chairman and Vice Chairman for their observations.
26/06/2020	Penderfyniad – y Clerc i ysgrifennu at Stephanie Roberts i'w chynghori o'r ymateb. E-bost wedi'i anfon at Stephanie Roberts.	It was decided that a letter be sent to Stephanie Roberts advising her of the reply received. Email sent to Stephanie Roberts.
11/07/2020	Arolwg o weithio o bell oddi wrth Un Llais Cymru. Penderfynwyd i'r Clerc lenwi'r arolwg yn dangos nad ydym wedi cynnal yr un cyfarfod o bell ac nad ydym yn bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol gan nad oes gennym yr adnoddau i wneud hynny.	Survey of Remote Working received from One Voice Wales. It was decided that the Clerk complete the survey stating that we have not held any meetings remotely and that it is not our intention to hold any remotely in the future as we do not have the resources to do so.
13/07/2020	Cais am wybodaeth oddi wrth Gyngor Sir Ynys Mon, ar ran Prif Weinidog Cymru - Archwiliad BLM (Black Lives Matter) o gerfluniau - eisiau gwybod a oedd cerflun neu enwau strydoedd neu adeiladau sydd â chysylltiad gyda chaethwasiaeth yng Ngwalchmai. Y Clerc wedi ymateb yn cadarnhau nad oedd unrhyw un o'r uchod yng Ngwalchmai.	Request for information – BLM Audit of Statues from Anglesey County Council on behalf of the First Minister for Wales. Needed to know whether there were any statues, street names or building names in Gwalchmai with a connection to slavery. The Clerk had informed the Council that there were none of the above in Gwalchmai.
13/07/2020	Llywodraeth Cymru yn anfon neges yn gofyn am sylwadau ar Ganllawiau Covid ar gyfer rheoli meysydd chwarae awyr agored i blant. Y Clerc wedi	Message from the Welsh Government requesting comments on Covid Guidance on Management of children's outdoor playgrounds. The Clerk had sent a copy to the Chairman, the Vice Chairman and

	<p>anfon copi at y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd ac at Cadeirydd Pwyllgor Maes Chwarae Plant. Wedi rhoi gwybod i Mr Veevers y byddai copi o'r Canllawiau Terfynol yn cael eu hanfon ato.</p>	<p>to Chairman of the Children's Playing field committee. He was informed that a copy of the final Guidance would be forwarded to him.</p>
14/07/2020	<p>Cyngor Sir Ynys Mon. Arolwg o Drefniadau Etholiadol Sir Ynys Mon - cynigion drafft. Y Clerc wedi anfon copi at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Penderfyniad - y Clerc i anfon neges at y Cyngor Sir yn datgan bod Cyngor Cymuned Trewalchmai yn cefnogi'r hyn sy'n cael ei argymhell gan y Comisiwn sef creu ward etholiadol newydd a dau aelod, wedi'i ffurfio o Gymunedau Bryngwran, Llanfaelog a Threwalchmai. Y Cyngor Sir wedi awgrymu'r enw Crigyll i'r ward. Dywedodd y Cyngor fod y newid hwn wedi'i gynnig oherwydd y cysylltiadau cymunedol lleol yn yr ardal.</p>	<p>Isle of Anglesey County Council. Review of the Electoral Arrangements of the County of Anglesey – draft proposals. The Clerk had forwarded a copy to the Chairman and Vice Chairman. Decision – the Clerk to send a message to the County Council stating that Trewalchmai Community Council supported the suggestions made by the Commission, i.e. create a new electoral ward with two members formed from the Communities of Bryngwran, Llanfaelog and Trewalchmai. The County Council had suggested that change due to local community ties in the area.</p>
17/07/2020	<p>Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Arolwg Newidiadau i Ddeddfwriaeth Ffyrdd. Copi wedi'i anfon at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Y Cadeirydd wedi llenwi'r arolwg.</p>	<p>Office of the Police and Crime Commissioner. Road Legislation Changes Survey. Copy sent to the Chairman and Vice Chairman. The Chairman had completed the survey.</p>
21/02/2020	<p>Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd fersiwn terfynol o ganllawiau drafft ar ail-agor Neuaddau Cymunedol. Yn dilyn hyn, penderfynwyd holi ynglŷn ag agor Canolfan yr Henoed ar gyfer cynnal cyfarfod ar y 10/8/2020. Wedi derbyn gwybodaeth anghyson o wahanol lefydd, aethpwyd ymlaen i holi ag Unllais Cymru a oedd modd cynnal cyfarfod dros Zoom er mwyn cadarnhau'r Ffurflen Flynyddol mewn da bryd. Ar y 3/8/2020 derbyniwyd ateb gan Mel Ab Owain, Unllais Cymru, yn cadarnhau bod hynny'n bosibl erbyn hyn. Ar ôl trafod gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd,</p>	<p>Welsh Government. Final draft version of Guidance on reopening or Community Venues. Following this, it was decided to enquire re the opening of the Pensioners' Hall in order to convene a meeting on the 10/8/2020. Following receipt of conflicting information from different sources, One Voice Wales were contacted to find out whether a meeting via Zoom could be held in order to confirm and accept the Annual Return in good time. On 3/8/2020 a reply was received from Mel ab Owain, One Voice Wales stating that it was now acceptable to conduct a meeting via Zoom. Following discussing the matter with the Chairman and Vice Chairman, it was decided to move on to using Zoom. It was found that the microphone on the Council's website was inadequate,</p>

	<p>penderfynwyd symud ymlaen i ddefnyddio Zoom. Canfuwyd nad oedd meic cyfrifiadur y Cyngor Cymuned yn foddhaol, felly penderfynwyd gosod meic newydd a bod y Clerc I gysylltu ag Aled Moss sy'n gyfrifol am gyfrifiadur y Cyngor, I holi am bris meic - oddeutu £30 - 40. Cafwyd cymorth a gwersi ar ddefnyddio Zoom gan Mr Moss. Y gost am hyn oedd £83 am alwad allan a gwaith Zoom; £35 am feic; a £35 am Domain cyngorgwalchmai.co.uk + e-bost+ Norton(Ebost) Medi 2019 - Awst 2020 - Cyfanswm o £153.00. Ar y 12/8/2020 cafwyd caniatâd i dalu'r anfoneb.</p>	<p>therefore it was decided to purchase an external microphone and that the Clerk contact Mr Aled Moss who is responsible for the Council's computer. He gave an estimated cost of around £30 - £40. He attended and gave instruction on using Zoom and to fix the microphone. The cost was as follows: £83 for call-out a work on Zoom; £35 for the microphone; and £35 for Domain cyngorgwalchmai.co.uk + email + Norton(email) Sept. 2019 to Aug.2020 – a total of £153.00. On 12/8/2020 permission was given to pay the invoice.</p>
22/07/2020	<p>Cyngor Sir Ynys Môn. Ailagor meysydd chwarae plant a manau chwarae awyr agored - Canllawiau Llywodraeth Cymru. Y Clerc wedi anfon copi at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a hefyd at Gadeirydd y Pwyllgor Maes Chwarae Plant. Y Clerc wedi gofyn iddo nodi nad oedd y Pwyllgor Maes Chwarae Plant dan unrhyw ddyletswydd i agor y maes chwarae plant os nad oeddynt yn teimlo ei bod yn saff i wneud hynny. Os mai agor y maes chwarae fyddai eu penderfyniad, gofynnwyd iddynt ddilyn y canllawiau a ddarparwyd, a cyn agor, rhoi copi o'r asesiad risg a gyflawnwyd i'r Clerc..</p>	<p>Isle of Anglesey County Council. Reopening Children's Playgrounds and Outdoor Play Areas – Welsh Government Guidance. The Clerk had forwarded a copy of the Chairman and Vice chairman, and also to the Chairman of the Children's Playing Field Committee. The Clerk had requested the Playing Field Chairman to note that the playing field committee were under no obligation to open the children's playing field if they did not feel it was safe to do so. If the decision was to open, they were requested to follow the guidelines provided and to let the Clerk have a copy of the risk assessment undertaken prior to opening.</p>
25/07/2020	<p>E-bost a anfonwyd at yr Is-gadeirydd oddi wrth perchennog, Y Swyddfa Bost. Cwyn am breswylwyr Arfon House. Anfonodd y Clerc gopi at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd a phenderfynwyd i'r Clerc anfon yr e-bost ymlaen at: Mr Ned Michael, (Pennaeth Adran Tai Cyngor Sir Ynys Môn), Alwena Pawson (Swyddog</p>	<p>An email sent to the Vice Chairman from the owners of the Post Office. Complaint regarding the residents of Arfon House. The Clerk sent a copy to the Chairman and Vice Chairman and it was decided that the Clerk send a copy to: Mr Ned Michael (Head of Housing Services, Anglesey County Council), Alwena Pawson (Placement Officer), Mrs Annwen Morgan, ACC Chief Exec.), Mr Bob Parry (County Councillor) and</p>

	<p>Lleoli), Mrs Annwen Morgan (Prif Weithredwr CSYM), Mr Bob Parry (Cynghorydd Sir) a'r Arolygydd Llinos Davies ynghyd ag e-bost oddi wrth y Cyngor Cymuned yn cadarnhau e-bost perchennog y Swyddfa Post. Anfonodd y Clerc gopi o'r e-bost at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i'w gymeradwyo cyn ei anfon ymlaen at y rhai cyfeiriedig uchod. Ar y 29/07/202 derbyniwyd ateb oddi wrth Mr Ned Michael ac anfonwyd copi ymlaen atberchennog y Swyddfa Bost. .</p>	<p>Inspector Llinos Davies, together with an email from the Community Council confirming the contents of the owner of the Post Offices's email. The Clerk sent a copy of the email to the Chairman and Vice Chairman for approval before forwarding on to the addressees above. On the 29/07/2020 a reply was received from Mr Ned Michael, and a copy was forwarded to the owner of the Post Office.</p>
<p>24/07/2020</p>	<p>Derbyniwyd e-bost oddi wrth etholwr yn gofyn am wybodaeth am ganlyniad cyfarfod a ddigwyddodd rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Heddlu Gogledd Cymru mewn perthynas ag Arfon House, Anfonwyd copi o'r e-bost at y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd. Gan nad oedd y Cyngor Cymuned yn gwybod am unrhyw gyfarfod rhwng CSYM a Heddlu Gogledd Cymru ynglŷn ag Arfon House penderfynwyd anfon yr e-bost ymlaen at Mr Ned Michael a'r Arolygydd Davies yn gofyn iddynt ymateb i e-bost yr etholwr. Anfonwyd copi o'r e-bost at yr etholwr es er gwybodaeth. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Mr Ned Michael ar y 29/07/2020 yn dweud mai "yr Arolygydd Davies oedd mewn sefyllfa i ateb y cwestiwn o faint o alwadau i'r eiddo a dderbyniwyd. Dywedodd hefyd nad oedd unrhyw gyfarfod penodol i drafod Arfon House gyda'r Heddlu wedi digwydd a bod ganddynt gyfarfodydd rheolaidd gyda'r Heddlu i drafod materion yn ymwneud a'r Ynys i gyd. Anfonwyd copi o ymateb Mr</p>	<p>Email received from an elector requesting "the results of the meeting between Ynys Mon Council and North Wales Police re Arfon House, and how many times they were called to Arfon House before the lock down". Copy of email forwarded to Chairman and Vice Chairman. As the Community Council had no knowledge of any meetings that had been held between Ynys Mon Council and North Wales Police regarding Arfon House, it was decided that the Clerk send a copy of the letter letter to Mr Ned Michael and Inspector Davies requesting them to reply to the email, a copy of which was sent to the elector for her information. A reply was received from Mr Ned Michael on the 29/07/2020 stating that Inspector Davies was better placed to answer the question of how many call-outs to Arfon House had been received. He also stated that no specific meeting had been held between the Council and NW Police to specifically discuss Arfon House, and that they held regular meetings with the police to discuss Island wide issues. A copy of Mr Michael's reply was sent to Mrs Jones. On the 4/8/2020 a reply was received from Inspector Llinos Davies stating that: 17 calls appertaining to Arfon House had been received between 28/7/2019 and 29/7/2020: of those 17, 4 calls were prior to the lock-down period between 29/7/2019 and 23/3/2020; and</p>



	<p>Michael at yr etholwr . Ar y 4/8/2020 derbyniwyd ateb oddi wrth Yr Arolygydd Llinos Davies yn dweud: mae 17 o alwadau yn ymwneud ag Arfon House a dderbyniwyd rhwng 28/7/2019 a'r 29/7/2020; 4 o'r galwadau hyn sydd y tu allan i'r cyfnod clo rhwng 29/7/2019 a'r 23/3/2020; 13 o alwadau rhwng 24/3/2020 a'r 29/7/2020. Dywedodd bod gan yr Heddlu gyfarfod bob bythefnos gyda'r Cyngor Sir I drafod lleoliadau ble roedd pryderon wedi'u codi gan y gymuned er mwyn monitor and rhoi cynlluniau ar waith pe byddai rhaid. Roedd Arfon House yn un o'r lleoliadau a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn. Y Clerc wedi anfon copi o'r ymateb at yr etholwr.</p>	<p>13 calls have been between 24/3/2020 and 29/7/2020. She stated that the police have fortnightly meetings with the Local Authority to discuss locations where concerns have been raised in the community in order to monitor and put plans and actions in place if required. Arfon House being one of the locations discussed in this meeting. The Clerk has forwarded a copy of the reply to the elector.</p>
04/08/2020	<p>Cais cynllunio ar gyfer dymchwel y garej presennol a chodi annedd newydd yn ei le, addasu'r fynedfa bresennol, addasu'r annedd gwreiddiol ynghyd a thirlunio meddal a chaled ar dir yn Tyn Llidiart Bach. Dim sylwadau.</p>	<p>Full planning application for demolition of the existing garage and the erection of a new dwelling in lieu, alterations to the existing access, alterations to existing dwelling together with soft and hard landscaping on land at Ty'n Llidiart Bach. No observations.</p>